Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

1. Cyflwyniad

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn sefydliad annibynnol, y mae GIG Cymru yn berchen arno ac yn ei gyfarwyddo, ac mae'n cael ei letya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau Cymru (PCGC) yn cefnogi GIG Cymru trwy ddarparu cyfres gynhwysfawr o wasanaethau cymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Mae PCGC yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddarparu Gwasanaethau Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol i Bractisiau Meddygon Teulu, Fferyllwyr Cymunedol, Practisiau Deintyddol a Phractisiau Offthalmig yng Nghymru. Fel rhan o weithrediad System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS) ar gyfer gofal sylfaenol, mae PCGC a Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda GPC Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru, WGDPC ac adrannau Gofal Sylfaenol Optometreg Cymru ym Myrddau Iechyd GIG Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Mae unrhyw gyfeiriad at 'Ni' isod yn cyfeirio at Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel corff a "letyir" gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae cyfeiriadau at 'Gontractwyr' yn cyfeirio at Bractisiau Meddygon Teulu, Fferyllfeydd Cymunedol, Practisiau Deintyddol a Phractisau Offthalmig.

Rydym yn cydnabod yr angen i drin gwybodaeth Bersonol mewn modd teg a chyfreithlon. Ni fydd unrhyw wybodaeth Bersonol a gedwir gennym ni yn cael ei phrosesu oni bai y gellir bodloni'r gofynion am brosesu teg a chyfreithlon. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn darparu crynodeb o sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny, drwy ddisgrifio'r canlynol:

- Y categorïau o wybodaeth bersonol yr ydym yn eu trin;
- Y diben(ion) y mae'n cael ei phrosesu ar ei gyfer/ar eu cyfer;
- Y bobl y gall y data gael eu rhannu â nhw.

Mae'r Hysbysiad hwn hefyd yn esbonio pa hawliau sydd gennych i reoli sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth.

2. Pa gyfreithiau sy'n berthnasol o ran ymdrin â gwybodaeth bersonol?

Y gyfraith sy'n penderfynu sut y gall sefydliadau ddefnyddio gwybodaeth bersonol. Rhestrir y prif ddeddfwriaethau sy'n llywodraethu'r defnydd o wybodaeth isod:

- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Bil Diogelu Data'r DU
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1998
- Deddf y Comisiwn Archwilio 1998
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990

O ran defnyddio'r wybodaeth sydd ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu, mae'r gyfraith wedi'i nodi yn bennaf mewn Deddfwriaeth Diogelu Data.

At ddibenion y ddeddfwriaeth hon, eich cyflogwr yw'r "Rheolwyr Data" (deiliad, defnyddiwr a phrosesydd) gwybodaeth staff. Mae PCGC wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhwymedigaethau contractiol eich cyflogwr wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG. Mae PCGC yn "Broseswyr Data" at y diben hwn.

3. Pa fath o ddata personol rydyn ni'n eu drin?

Er mwyn cyflawni ein gweithgareddau a'n rhwymedigaethau o fewn y system WNWRS ac fel gweinyddwr data ac adroddiadau WNWRS ar gyfer Contractwyr Gofal Sylfaenol yng Nghymru, rydym ar hyn o bryd yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth ganlynol:

- **Manylion cyswllt y contractwyr;** cod safle, enw'r safle, cyfeiriad, cod post, cyfeiriad e-bost cyswllt a'r ardal leol.
- **Manylion y Contractwyr/Rheolwyr Practis a Defnyddiwr System;** enwau, rôlau swydd a chyfeiriadau e-bost a rhif ffôn.

- **Gwybodaeth bersonol adnabyddadwy staff;** enwau (enw cyntaf, enwau eraill a chyfenw), dyddiadau geni, rhifau Yswiriant Gwladol (NINO) a chofrestriadau proffesiynol.
- **Demograffeg bersonol:** rhyw ac ethnigrwydd.
- **Gwybodaeth cofnodion cyflogaeth;** rôlau staff, grwpiau staff, mathau o gontract, oriau contract, oriau gwaith, oriau capasiti ychwanegol, ffynonellau recriwtio, dyddiadau ymuno, dyddiadau terfynu, rhesymau dros adael a chyrchfannau.
- **Addysg a hyfforddiant;** cymwysterau, achrediadau, arbenigeddau cofrestredig, diddordebau cofrestredig a diddordebau arbennig.
- **Cymwyseddau iaith Gymraeg:** sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad.
- **Gwybodaeth absenoldeb:** categori absenoldeb, dyddiad cychwyn a gorffen, statws absenoldeb, gwybodaeth am gyflenwi absenoldeb.
- **Oriau Gwaith Ychwanegol;** Enw cyntaf, Cyfenw, cofrestriad proffesiynol ac oriau a weithiwyd am y mis
- **Y meddygon locwm a ddefnyddir;** Enw cyntaf, Cyfenw, cofrestriad proffesiynol ac oriau a weithiwyd am y mis.
- **Gwybodaeth am swyddi gwag:** dyddiad cychwyn a gorffen swydd wag, grŵp staff a rôl, cyfwerth ag amser llawn/oriau, statws swydd wag a statws cyflenwi swydd wag.
- **Cwestiynau cynllunio gweithlu:** risgiau/materion y practis, heriau recriwtio a chadw, prinder/heriau sgiliau, heriau strwythur y gweithlu a cheisiadau datblygu.

4. Sut rydym yn cael gafael ar yr wybodaeth a pham mae hi gennym ni

Mae'r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu yn cael ei rhoi i ni'n uniongyrchol drwy eich Contractwr/Rheolwr Practis a'r WNWRS. I ddechrau, cwblheir hyn drwy ymarfer mudo data WNWRS (fel cais data gweithredu cyn system). Mae'r WNWRS bellach yn ffynhonnell uniongyrchol i Gontractwyr/Rheolwyr Practisiau ddarparu gwybodaeth i ni.

Gellir cael mynediad i'r system trwy system fewngofnodi diogel.

Yn ogystal â'r WNWRS, rydym yn casglu gwybodaeth gan Gofnod Staff Electronig y GIG (ESR), GPWales – Canolfan Locwm Cymru, Rhestr Cyflawnwyr Meddygol Cymru (MPL) a chyrff cofrestru proffesiynol. Defnyddir yr wybodaeth hon ar gyfer dilysu a nodi gwallau a gedwir o fewn data System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu.

Mae'r rheswm pam ein bod yn cadw'r wybodaeth hon yn cael ei restru isod yn adran 5.

Yng Nghymru, mae'r sail gyfreithiol i Lywodraeth Cymru gasglu a phrosesu data ar weithlu Contractwyr y GIG wedi'i nodi yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Caiff Gweinidogion Cymru, yn unol â'u pwerau a gynhwysir yn Neddf GIG (Cymru) 2006, roi cyfarwyddyd i gasglu a phrosesu data ar y gweithlu gofal sylfaenol yng Nghymru.

O dan Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Cyfreithlondeb Prosesu), y seiliau cyfreithlon yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(b) Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni contract y mae gwrthrych y data yn rhan ohono;

(c) Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi;

(e) Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;

(f) Mae angen prosesu at ddibenion y buddion cyfreithlon y mae'r rheolwr neu drydydd parti yn eu dilyn

5. Beth rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi inni er mwyn:

- Galluogi Contractwyr a PCGC i ddarparu data ar gyfer adrodd ar y gweithlu *
- Galluogi Contractwyr i ddarparu gwybodaeth gywir a chyfredol am y gweithlu i gyflawni'r rhwymedigaethau adrodd i Lywodraeth Cymru**, Byrddau Iechyd ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.***
- Galluogi Contractwyr i ddarparu gwybodaeth gywir a chyfredol am y gweithlu i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau contract y GIG.
- Cynorthwyo â gweinyddu a chyfranogiad yn y cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn unig

**Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei harddangos yn y modiwl adrodd, ond gall Contractwyr unigol (Rheoli Eiddo) gyrchu adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol o ddata eu gweithlu.*

***Wrth ddarparu data adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfrifiad Gofal Sylfaenol, mae PCGC yn trosi'r dyddiad geni i ddangos yr oedran mewn blynyddoedd yn unig. Rydym yn rhoi ffugenw i'r Rhif Yswiriant Gwladol ac yn ei droi'n rhif unigryw, yna'n darparu'r cofrestriad proffesiynol i'w ddilysu yn*

erbyn data blaenorol y cyfrifiad. Mae hyn yn dileu'r angen am adroddiadau papur presennol ac yn galluogi contractwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion contract y GIG.

**** Mae PCGC wedi sefydlu Cytundeb Rhannu Data gydag AaGIC i dderbyn data sy'n cynnwys Rhifau Cofrestru Proffesiynol ac Yswiriant Gwladol fel dynodwyr unigryw. Mae'r dynodwr unigryw yn hanfodol ar gyfer croesgyfeirio â ffynonellau data eraill a gedwir yn GIG Cymru i adlewyrchu'r Gweithlu Amlddisgyblaethol Gofal Sylfaenol yng Nghymru yn gywir. Mae hyn yn hanfodol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o ran galluogi cynllunio, datblygu, llunio a chefnogi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.*Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon ag Argyle IT (darparwr system), PCGC (adrannau mewnol), Llywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Byrddau Iechyd GIG Cymru (Arweinwyr Gofal Sylfaenol) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

Mae nifer o resymau pam ein bod yn rhannu gwybodaeth. Gall hyn fod o ganlyniad i'r canlynol:

- Ein rhwymedigaethau i gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol.
- Ein dyletswydd i gydymffurfio â threfniadau contractiol.
- Ein dyletswydd i gydymffurfio â'r angen i gyflawni tasg gyhoeddus.
- Ein dyletswydd i gydymffurfio ag unrhyw Orchymyn Llys y gellir ei orfodi.
- Rhannu gwybodaeth ag adrannau mewnol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo a'u rhedeg yn esmwyth (h.y. Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol).

Mae unrhyw ddatgeliad o wybodaeth Bersonol bob amser yn cael ei wneud fesul achos, gan ddefnyddio lleiafswm y data personol sydd eu hangen ar gyfer y diben a'r amgylchiadau penodol, gyda'r rheoliadau diogelwch priodol yn eu lle. Dim ond gyda'r asiantaethau a'r cyrff hynny sydd ag "angen gwybod" neu lle rydych chi wedi cydsynio i ddatgelu'ch gwybodaeth Bersonol i bobl o'r fath y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.

6. Sut rydym yn storio'ch gwybodaeth

Storir eich gwybodaeth yn ddiogel yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu ac ar weinyddion data sydd wedi'u lleoli o fewn y DU mewn lleoliad canolog, ar safle'r cyflenwr a'r datblygwr system. Rheolir mynediad i'r system trwy fewngofnodi diogel gyda chaniatâd lefel mynediad wedi'i ddyrannu ar gyfer rôl y defnyddiwr a rhoi mynediad i'r defnyddwyr hynny i'r meysydd sydd eu hangen arnynt yn unig.

At ddibenion echdynnu a dilysu data chwarterol, bydd Argyle IT yn tynnu data o'r WNWRS ac yn eu cadw'n ddiogel ar weinydd TG Argyle. Unwaith y bydd yr ymarfer

dilysu data wedi'i gwblhau, caiff y data eu lanlwytho i WNWRS i lenwi'r modiwl adrodd.

Wrth echdynnu a dilysu data at ddibenion Cyfrifiad Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru, bydd Argyle IT yn tynnu'r data o'r WNWRS a'u hanfon at PCGC drwy borth rhannu ffeiliau diogel WNWRS. Bydd PCGC yn cadw'r data'n ddiogel ar weinydd PCGC a gefnogir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gwblhau'r ymarfer dilysu.

Byddwn yn cadw data personol am gyfnod o 6 blynedd ar ôl dyddiad cau'r cofnod. Byddwn yn storio data yn electronig ac yn cael gwared ar wybodaeth trwy ei dileu yn ddiogel. Gan fod y WNWRS yn system gweithlu a gynhelir gan y broses Rheoli Contractwyr, cynghorir bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r Polisi Rheoli Cofnodion lleol, a'r amserlenni cadw a dinistrio sy'n pennu isafswm y cyfnod cadw cofnodion.

At ddibenion yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol, cynghorir bod Practisiau Meddygon Teulu yn cadw cofnodion o staff nad ydynt bellach yn cael eu cyflogi gan y Practis Meddygon Teulu os ydynt am gael eu dileu o System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cael manylion cyflogaeth os oes angen o dan y cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

7. Cyrff Eraill

Mae pob sefydliad GIG yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei reoli. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch i ddatgelu ac atal troseddau a thwyll. Hefyd efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n arolygu ac yn rheoli cronfeydd cyhoeddus.

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth amdanoch fel mater o drefn heb eich caniatâd pendant oni bai bod dyletswydd gyfreithiol / statudol arnom i wneud hyn.

8. Beth os yw'r data y mae System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu yn eu cadw yn anghywir?

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth sydd gennym yn gyfredol. Os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth bersonol sydd wedi'i storio yn newid neu os yw'n anghywir ar hyn o bryd, mae'n bwysig eich bod yn adolygu hyn gyda'ch Rheolwyr Contractwr i sicrhau ei bod yn cael ei diweddaru yn y ffynhonnell.

Pan fydd data'n cael eu tynnu o System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu rydym yn defnyddio dyddiad echdynnu i nodi bod y data yr adroddwyd arnynt yn dod o wybodaeth a ddarparwyd hyd at y dyddiad hwn. Mae modiwl adrodd System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu yn nodi'r cyfnod echdynnu chwarterol y darperir y data ohono.

Bydd PCGC a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Rheolwyr Contractwyr i wella ansawdd a chywirdeb data o fewn y system cyn echdynnu data bob chwarter.

9. Diogelwch eich Gwybodaeth

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i warchod eich gwybodaeth Bersonol a chyfrinachedd o ddifrif ac rydym yn ymrwymedig i gymryd mesurau rhesymol i sicrhau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth Bersonol yr ydym yn gyfrifol amdanynt, boed ar gyfrifiadur neu ar bapur.

Ni fydd eich gwybodaeth Bersonol yn cael ei gwerthu i unrhyw drydydd parti gennym ni nac unrhyw asiantaeth sy'n ei dal at y dibenion a restrir uchod.

O dan God Ymddygiad Cyfrinachedd y GIG, mae gofyn i ni hefyd ddiogelu'ch gwybodaeth, rhoi gwybod i chi sut y defnyddir eich gwybodaeth, a lle y bo'n briodol, gadael i chi benderfynu os y gellir rhannu eich gwybodaeth a sut.

Mae pawb sy'n gweithio i'r GIG yn atebol i Ddyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin. Ni fydd gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol ond yn cael ei defnyddio at y dibenion yr ydych yn eu nodi ac yn rhoi'ch cydsyniad iddynt, oni bai ei fod yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

Mae holl weithwyr y GIG yng Nghymru gan gynnwys PCGC wedi penodi Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am reoli'r holl asedau gwybodaeth personol ac unrhyw risgiau a digwyddiadau cysylltiedig. Maent hefyd yn penodi Gwarcheidwad Caldicott sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth cleifion a'u cyfrinachedd.

Mae'n ofynnol i'r holl staff sy'n trin gwybodaeth gyfrinachol gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn yr ystafell ddosbarth bob dwy flynedd. Bydd pob aelod o staff hefyd yn cwblhau modiwlau e-Ddysgu gorfodol ar-lein.

Mae cwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth rheolaidd yn un o ofynion Deddfwriaeth Diogelu Data. Bydd yr hyfforddiant yn sicrhau bod staff yn ymwybodol

o'u cyfrifoldebau ynghylch defnydd diogel ac addas o wybodaeth Bersonol adnabyddadwy a chyfrinachol.

10. Sut allwch chi gael mynediad at eich data personol?

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data (Hawliau Unigol y Gwrthrych Data) yn rhoi'r hawl i chi gael mynediad at yr wybodaeth y mae'ch cyflogwr yn cadw amdanoch. Rhaid i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig i'ch Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth lleol.

Bydd rhaid i chi ddarparu'r canlynol:

- Gwybodaeth ddigonol [er enghraifft enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif staff, ayyb.] er mwyn gallu gwirio'ch hunaniaeth a dod o hyd i'ch data personol;
- Disgrifiad o ba wybodaeth yr ydych yn gwneud cais amdani i'n galluogi ei lleoli mewn modd effeithlon.

Dylid cyflwyno ceisiadau i PCGC drwy ein Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, a cheir manylion am hyn yn Adran 14. Ceisiwn gydymffurfio â cheisiadau mynediad at ddata personol mor gyflym â phosibl. Lle bo'r cais yn rhan o gylch gorchwyl PCGC i ymateb iddo, byddwn yn ymdrin â cheisiadau o fewn mis calendr llawn o'i dderbyn oni bai bod rheswm dros oedi y gellir ei gyfiawnhau dan y Ddeddf Diogelu Data. Bydd ceisiadau y tu allan i gylch gwaith PCGC yn cael eu hailgyfeirio at yr Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth y Contractwyr.

11. Cwynion am sut rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â Swyddog Cwynion PCGC.

Gallwch wneud cwyn hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio'ch data Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gar
SK9 5AF

Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113

www.ico.gov.uk

12. Newidiadau i'n hysbysiad preifatrwydd

Ceisiwn adolygu ein Hysbysiad Preifatrwydd yn gyson a bydd yn cael ei adolygu wrth i'r canllawiau a'r gyfraith newid.

13. Hysbysiad Diogelu Data

Yn ogystal â PCGC, mae pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yn 'Rheolwr Data' o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae disgwyl i ni roi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth ein bod yn prosesu gwybodaeth Bersonol a'r rhesymau dros wneud hynny. Mae'r manylion hyn ar gael yn gyhoeddus gan:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane,
Wilmslow, SK9 5AF
www.ico.gov.uk

14. Ein manylion cyswllt

	Gwasanaethau Cyflogaeth y Bartneriaeth Cydwasanaethau	**Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC**
Cyfeiriad	Pencadlys PCGC Uned 4-5 Cwrt Charnwood Heol Billingsley Parc Nantgarw CF15 7QZ	Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ
E-bost	NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk	Tim.knifton@wales.nhs.uk
Ffôn	01792 860498/860490	